

## 24. Ysgolion sy'n Peri Pryder a Byrddau Gweithredol Dros Dro

Yn y bennod hon rhoddir sylw i:

- ysgolion sy'n peri pryder;
- y camau gweithredu y gellir eu cymryd yn erbyn ysgolion o'r fath;
- egluro sut i weithredu mesurau i wella'r ysgolion hyn; ac
- egluro sut y sefydlir Byrddau Gweithredol Dros Dro, a'u swyddogaeth.

### Cefndir

1. Yn ôl diffiniad [Adran 44 o Ddeddf Addysg 2005](#), ysgolion sy'n peri pryder yw rhai y dyfernir ar ôl arolygiad Estyn bod arnynt angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol.

### Sut y Diffinnir Ysgol o'r Fath?

2. Bydd angen mesurau arbennig mewn perthynas ag ysgol os:
  - nad yw'r ysgol yn cynnig addysg o safon dderbyniol i'w disgyblion; ac
  - nad yw'r bobl sy'n gyfrifol am arwain, rheoli neu lywodraethu'r ysgol yn dangos y gallant gyflawni'r gwelliant sydd ei angen ar yr ysgol.
3. Dywedir bod angen gwelliant sylweddol ar ysgol pan nad oes angen arni fesurau arbennig ond bod ei pherfformiad yn sylweddol waeth nag y byddai rhywun yn ei ddisgwyl yn rhesymol, ar ôl ystyried yr holl amgylchiadau.
4. Fel y nodwyd yn y Bennod flaenorol, wrth gynnal arolygiad rhaid i Arolygwyr Cofrestredig ystyried a oes angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol ar yr ysgol.
5. Os yw Arolygydd Cofrestredig yn nodi bod angen mesurau arbennig ar yr ysgol, polisi Estyn yw trefnu ymweliad ategol. Ar ôl i Estyn ymweld â'r ysgol ac adrodd ar yr ymweliad, bydd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn penderfynu a yw'n cytuno â'r dyfarniad hwnnw.
6. Os yw'r Arolygydd Cofrestredig yn nodi bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol, polisi Estyn fel arfer yw cadarnhau'r dyfarniad a geir yn yr adroddiad drafft a gyflwynodd yr Arolygydd Cofrestredig. Gall Estyn hefyd drefnu ymweliad ategol yn ôl yr angen. Bydd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi yn penderfynu a yw'n cytuno â'r penderfyniad hwnnw.
7. O safbwynt ysgolion y mae arnynt angen fesurau arbennig neu welliant sylweddol, rhaid i'r corff llywodraethu baratoi a chyhoeddi cynllun gweithredu o fewn 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad arolygu, neu'n gynt os dywed Gweinidogion Cymru fod angen i hyn gael ei gyflawni gyda mwy o frys.

8. Dylid llunio'r cynllun gweithredu gyda'r nod o gael gwared ar y mesurau arbennig neu'r angen am welliant sylweddol cyn gynted â phosibl. Rhaid i'r corff llywodraethu anfon copi o'r cynllun gweithredu at Brif Arolygydd Ei Mawrhydi a Gweinidogion Cymru.

### **Pwerau Ymyrryd**

9. Mae gan ALlau a Gweinidogion Cymru y pŵer i fynd i'r afael â phroblemau ysgolion sydd angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol.

10. O dan [Adran 14 i 17](#) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, fel y'i diwygiwyd gan [Ddeddf Addysg 2002](#) a [Deddf Addysg 2005](#), os oes angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol ar ysgol, mae gan yr ALI y pŵer i benodi llywodraethwyr ychwanegol os ystyrir bod angen hynny neu atal dros dro hawl yr ysgol i gyllideb ddirprwyedig.

11. Gall ALlau hefyd gyflwyno hysbysiadau o rybudd i ysgolion a disodli'r corff llywodraethu gyda Bwrdd Gweithredol Dros Dro os bydd yr ysgol yn methu â chydymffurfio â'r hysbysiad o rybudd neu os nodir bod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol ar yr ysgol.

12. O dan [Adrannau 18, 18A a 19](#) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, fel y'i diwygiwyd gan [Ddeddf Addysg 2002](#) a [Deddf Addysg 2005](#), os oes angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol ar ysgol, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i:

- benodi llywodraethwyr ychwanegol, enwebu un neu fwy ohonynt fel Cadeirydd yn lle'r Cadeirydd etholedig a phennu hyd eu penodiad; neu
- ar ôl ymgynghori â'r corff llywodraethu a'r ALI, gall hysbysu'r corff llywodraethu y bydd y corff hwnnw'n cynnwys aelodau dros dro o ddyddiad penodol ymlaen (daeth y pwerau hyn i rym ar 2 Ionawr 2008).

Ac, yn achos Mesurau Arbennig yn unig:

- ar ôl ymgynghori â'r corff llywodraethu, yr ALI a chyrrff priodol eraill, gorchymyn yr ALI i gau'r ysgol ar ddyddiad penodol.

13. [Bob tymor, mae Estyn yn monitro ysgolion y dyfarnwyd bod arnynt angen mesurau arbennig, gan ddechrau yn ystod y tymor ar ôl cyhoeddi adroddiad arolygu Adran 28, hyd nes bod y Prif Arolygydd o'r farn fod yr ysgol wedi gwella digon i gael gwared ar y mesurau arbennig. Bydd Estyn yn cynnal ail arolwg mewn ysgolion y dyfernir bod angen gwelliant sylweddol arnynt ymhen 12 mis ar ôl dyddiad cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Yn ystod yr arolygiad hwn bydd yr arolygwyr yn penderfynu bod yr ysgol wedi gwneud digon o gynnydd er mwyn medru ei thynnu oddi ar y rhestr; nad yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd a bod yna bryder ynghylch ei gallu i wneud hynny, a bod angen mesurau arbennig; neu os yw wedi gwneud cynnydd sylweddol ond nad yw wedi gwella digon i gael ei thynnu oddi ar y rhestr ac y](#)

bydd angen ymweld â'r ysgol eto ymhen chwe mis. Yn ystod yr ail ymweliad hwn caiff yr ysgol naill ai ei thynnu oddi ar y rhestr neu rhoddir mesurau arbennig arni. Rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o ganfyddiadau Estyn bob amser.

14. Ceir gwybodaeth am ysgolion sy'n achosi pryder yn Atodiad 2 o Lawlyfr Canllawiau ar Arolygiadau Ysgolion.

### **Byrddau Gweithredol Dros Dro**

15. Mae [Adrannau 57 a 58 o Ddeddf Addysg 2002](#) yn diwygio Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 gan ychwanegu adrannau newydd, sef 16A a 18A at y Ddeddf. Mae [Adran 16A](#) yn rhoi pwerau ychwanegol i awdurdodau lleol eu darparu i gorff llywodraethu ysgol fel bod y corff hwnnw'n cynnwys Bwrdd Gweithredol Dros Dro pan fydd Estyn yn nodi bod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol ar ysgol ar ôl i hysbysiad o rybudd gael ei gyhoeddi neu'n dilyn arolygiad. Mae [Adran 18A](#) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru benodi Aelodau Gweithredol Dros Dro sy'n aelodau o'r Bwrdd Gweithredol Dros Dro pan ddyfernir bod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol ar ysgol.

16. Os yw awdurdod lleol am benodi Bwrdd Gweithredol Dros Dro, yn gyntaf rhaid iddynt gael caniatâd Gweinidogion Cymru cyn cyflwyno hysbysiad o rybudd i'r corff llywodraethu gan ddweud y bydd Bwrdd Gweithredol Dros Dro yn cael ei benodi.

17. Bwriedir i'r pwerau i benodi Bwrdd Gweithredol Dros Dro gael eu defnyddio dan amgylchiadau lle dyfernir na all corff llywodraethu wella perfformiad ac adfer yr ysgol, hyd yn oed gyda chymorth. Caiff Byrddau Gweithredol Dros Dro eu rheoli gan ddarpariaethau a bennir yn [adran 19A](#) ac Atodlen 1A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002. Bydd swydd pob llywodraethwr a oedd yn bodoli cyn hynny yn dod i ben ar y dyddiad a nodir yn yr hysbysiad fel dyddiad cychwyn y Bwrdd Gweithredol Dros Dro.

### **Pa Drefn ddylai Awdurdod Lleol ei Dilyn er mwyn Penodi Bwrdd Gweithredol Dros Dro?**

18. Gall ALI wneud cais i Weinidogion Cymru am ganiatâd i sefydlu Bwrdd Gweithredol Dros Dro yn lle corff llywodraethu'r ysgol pan fo'r ysgol wedi methu â chydymffurfio â'r Hysbysiad o Rybudd neu pan fo Estyn wedi dyfarnu bod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol arni yn dilyn arolygiad.

19. Caiff y Bwrdd Gweithredol Dros Dro ei benodi gan yr ALI ac mae'n ymgymryd â holl gyfrifoldebau corff llywodraethu am gyfnod cytunedig.

20. Mae Bwrdd Gweithredol Dros Dro yn gyfrifol am oruchwylio'r broses o ddatblygu gwaith a'i roi ar waith er mwyn sicrhau y rhoddir addysg o safon dderbyniol i'r disgyblion. Ar ôl cyfnod cytunedig caiff y Bwrdd Gweithredol Dros Dro ei ddisodli gan gorff llywodraethu â chyfansoddiad arferol sy'n gweithredu'n gysgodol cyn ymgymryd â phwerau llawn corff llywodraethu.

## **Penodi Bwrdd Gweithredol Dros Dro mewn Ysgol Sefydledig neu Ysgol Wirfoddol**

VA  
F

21. Pan fo ALI am benodi Bwrdd Gweithredol Dros Dro mewn ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, rhaid iddo ymgynghori â'r esgobaeth neu awdurdod penodi arall, cyn cyflwyno cais i Weinidogion Cymru. Bydd disgwyl i Weinidogion weld tystiolaeth o ymrwymiad llawn yr esgobaeth neu'r awdurdod penodi wrth benderfynu sefydlu Bwrdd Gweithredol Dros Dro.

22. Bydd angen i aelodau gweithredol dros dro sicrhau y caiff dogfen ymddiriedolaeth yr ysgol ei chadw a'i datblygu, ac y cynhelir cymeriad yr ysgol.

## **Cais i Weinidogion Cymru i sefydlu Bwrdd Gweithredol Dros Dro**

23. Pan fo ALI yn penderfynu cyflwyno cais i Weinidogion Cymru am ganiatâd i sefydlu Bwrdd Gweithredol Dros Dro yn lle corff llywodraethu ysgol, dylai:

- ymgynghori â'r corff llywodraethu cyfredol ac, yn achos ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, yr esgobaeth neu awdurdod penodi arall;
- llenwi ac anfon cais i sefydlu Bwrdd Gweithredol Dros Dro at Weinidogion Cymru;
- ac, ar ôl derbyn cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, ysgrifennu i'r corff llywodraethu cyfredol er mwyn rhoi rhybudd y bydd Bwrdd Gweithredol Dros Dro yn cael ei sefydlu ("hysbysiad sefydlu"). Dylai'r llythyr hwn ddatgan pryd fydd y Bwrdd Gweithredol Dros Dro yn cychwyn, a bydd yn nodi pryd y disgwylir i arweiniad y Bwrdd Gweithredol Dros Dro ddod i ben. Yn achos ysgolion sefydledig neu ysgolion gwirfoddol, dylid anfon copi o'r llythyr hwn i'r esgobaeth neu i'r awdurdod penodi priodol.

## **Yr Wybodaeth i ALI ei Chyflwyno wrth Wneud Cais i Weinidogion Cymru i Sefydlu Bwrdd Gweithredol Dros Dro**

24. Mae angen y wybodaeth ganlynol wrth gyflwyno cais i sefydlu Bwrdd Gweithredol Dros Dro. Rhaid i'r ALI gasglu'r wybodaeth hon yn ogystal â nodiadau cefndir ategol neu atodiadau fel y bo'n briodol:

- manylion yr ysgol gan gynnwys cyfeiriad, statws (ysgol gymunedol, ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyr) a nifer y disgyblion;
- gwybodaeth gefndir a'r rhesymau dros wneud y cais, gan gynnwys cadarnhad bod yr ysgol wedi derbyn Hysbysiad o Rybudd neu fod Estyn wedi dyfarnu bod angen Mesurau Arbennig neu Welliant Sylweddol arni. Yn yr adran hon dylid hefyd roi crynodeb o'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr ysgol a'r camau gweithredu sydd wedi'u cymryd hyd yma i ymdrin â'r meysydd a nodwyd. Yn benodol, rhaid cynnwys asesiad yr ALI o allu'r corff llywodraethu

cyfredol i sicrhau y cyflawnir y gwelliannau a nodwyd, gan gynnwys gwybodaeth ategol (e.e. adroddiadau Estyn) lle bo hyn ar gael;

- cadarnhad yr ymgynghorwyd â'r corff llywodraethu (a, lle y bo'n addas, cyrff perthnasol eraill gan gynnwys yr esgobaeth) ynglŷn â'r bwriad i wneud cais am Fwrdd Gweithredol Dros Dro a manylion yr ymateb;
- y dyddiad y bwriedir sefydlu'r Bwrdd Gweithredol Dros Dro a manylion yr aelodau arfaethedig. Dylai hyn gynnwys crynodeb o'r arbenigedd amrywiol a fydd yn cael ei ddwyn ynghyd a pham fod yr awdurdod yn credu y byddai Bwrdd Gweithredol Dros Dro yn fwy tebygol o wella'r ysgol na'r corff llywodraethu cyfredol. Dylid ategu hyn drwy roi crynodeb bras o sgiliau a phrofiad aelodau arfaethedig y Bwrdd Gweithredol Dros Dro a dylid cadarnhau pwy yw'r cadeirydd arfaethedig. Dylid hefyd amcangyfrif pa mor hir fyddai'r Bwrdd Gweithredol Dros Dro mewn grym; a
- gwybodaeth gan Gadeirydd y Llywodraethwyr sy'n manylu ar ymateb y corff llywodraethu i'r cais i sefydlu Bwrdd Gweithredol Dros Dro ac, os yw'n erbyn sefydlu Bwrdd Gweithredol Dros Dro, dylid manylu pam y gwrthwynebir y cais.

### **Cyflwyno'r Cais**

25. Rhaid i'r cais roi sylw i'r meysydd uchod, bod wedi'i lofnodi gan gynrychiolydd o'r ALI ac yna dylid ei anfon i'r cyfeiriad canlynol:

Pennaeth yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion  
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau  
Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Adeilad y Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ.

### **Beth yw Swyddogaeth Bwrdd Gweithredol Dros Dro?**

26. Bydd Bwrdd Gweithredol Dros Dro yn gweithredu fel corff llywodraethu'r ysgol yn ystod ei gyfnod mewn grym.

27. Mae gan Fwrdd Gweithredol Dros Dro ddyletswydd statudol i gynnal yr ysgol er mwyn sicrhau y sefydlir, cyn belled ag y bo'n ymarferol, sylfaen gadarn ar gyfer gwella ymddygiad yr ysgol at y dyfodol. Bydd yn ymgymryd â holl gyfrifoldebau corff llywodraethu, gan gynnwys rheoli'r gyllideb, y cwricwlwm, y staff, cyflogau a gweithdrefnau rheoli perfformiad. Bydd hefyd yn penodi'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth. Prif swyddogaethau'r Bwrdd Gweithredol Dros Dro yw sicrhau sylfaen gadarn ar gyfer gwella'r ysgol at y dyfodol a hyrwyddo cyflawniad addysgol o safon uchel.

28. Gall y Bwrdd Gweithredol Dros Dro bennu'i weithdrefnau ei hun a gwneud unrhyw drefniadau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer penodi person arall i gyflawni'i ddyletswyddau.

29. Nid yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005, Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 a Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005 yn berthnasol i Fyrddau Gweithredol Dros Dro. Yn ogystal, nid yw offeryn llywodraethu'r ysgol yn effeithio ar y Bwrdd Gweithredol Dros Dro.

### **Pwy fydd ar y Bwrdd Gweithredol Dros Dro?**

30. Caiff Bwrdd Gweithredol Dros Dro ei ffurfio gan nifer o Aelodau Gweithredol Dros Dro. Nid oes yna uchafswm o Aelodau Gweithredol Dros Dro y gellir eu cynnwys mewn Bwrdd Gweithredol Dros Dro ond mae angen o leiaf ddau aelod. Serch hynny, wrth gyflwyno cais i Weinidogion Cymru i sefydlu Bwrdd Gweithredol Dros Dro, bydd angen i'r awdurdod lleol brofi'r arbenigedd amrywiol a fydd yn cael ei ddwyn ynghyd, a pham y cred yr awdurdod y byddai'r Bwrdd Gweithredol Dros Dro yn fwy cymwys i sicrhau gwelliant yr ysgol na'r corff llywodraethu. Rhaid i geisiadau gynnwys crynodeb bras o sgiliau a phrofiad yr Aelodau Gweithredol Dros Dro arfaethedig. Gellir penodi llywodraethwr cyfredol yn aelod o'r Bwrdd Gweithredol Dros Dro.

31. Rhaid penodi Aelod Gweithredol Dros Dro yn ysgrifenedig gan bennu telerau'r penodiad hwnnw. Gall yr awdurdod priodol ddiswyddo Aelod Gweithredol Dros Dro ar unrhyw adeg am gamymddwyn neu ar sail ei anallu, a bydd hefyd yn gallu rhoi rhybudd i ddod â swydd Aelod Gweithredol Dros Dro i ben.

### **Beth fydd Hyd Swydd Aelod Gweithredol Dros Dro?**

32. Rhagwelir y caiff aelodau eu penodi am y cyfnod llawn y disgwylir i'r Bwrdd Gweithredol Dros Dro fod mewn grym er mwyn cyflawni'i amcanion ac adfer yr ysgol.

### **Beth fydd Meini Prawf Dethol Aelod Gweithredol Dros Dro?**

33. Dylid dewis Aelodau Gweithredol Dros Dro yn unol ag anghenion yr ysgol. Gellir penodi llywodraethwyr cyfredol i fod yn Aelodau Gweithredol Dros Dro ar y Bwrdd Gweithredol Dros Dro. Unwaith i'r Bwrdd Gweithredol Dros Dro gael ei sefydlu, gellir penodi Aelodau Gweithredol Dros Dro ychwanegol ar unrhyw adeg. Gall y corff penodi ddiswyddo Aelodau Gweithredol Dros Dro.

34. Dylai'r corff priodol (h.y. yr ALI neu Weinidogion Cymru, gan ddibynnu ar ba gorff a roddodd yr hysbysiad i sefydlu Bwrdd Gweithredol Dros Dro) lunio hysbysiad penodi ar gyfer pob Aelod Gweithredol Dros Dro. Dylid anfon copiâu o'r hysbysiad at bob aelod arall o'r Bwrdd Gweithredol Dros Dro, corff llywodraethu cyfredol yr ysgol, Gweinidogion Cymru neu'r ALI gan ddibynnu ar bwy sy'n sefydlu'r Bwrdd Gweithredol Dros Dro, ac - yn achos ysgolion sefydledig neu wirfoddol - yr esgobaeth neu awdurdod penodi priodol arall.

35. Gall y corff priodol hefyd enwebu Aelod Gweithredol Dros Dro fel cadeirydd y Bwrdd Gweithredol Dros Dro.

### **Talu'r Aelodau Gweithredol Dros Dro**

36. Gall yr ALI neu Weinidogion Cymru ddewis talu Aelodau Gweithredol Dros Dro i weithio ar y Bwrdd Gweithredol Dros Dro. Telir y swm hwn yn ôl disgrisiwn yr awdurdod sy'n sefydlu'r Bwrdd Gweithredol Dros Dro, ac nid oes yna swm penodol i'w dalu.

### **Cyllideb Ddirprwyedig**

37. Mae gan Fwrdd Gweithredol Dros Dro yr hawl i gyllideb ddirprwyedig. Os yw cyllideb yr ysgol eisoes wedi'i thynnu oddi ar y corff llywodraethu, rhaid i'r ALI ailsefydlu'r gyllideb o ddyddiad cychwyn gwaith y Bwrdd Gweithredol Dros Dro.

38. Os oes hysbysiad eisoes wedi'i roi i'r corff llywodraethu cyfredol sy'n nodi'r dyddiad arfaethedig y bwriedir diddymu'r gyllideb ddirprwyedig, ni fydd yr hysbysiad yn ddilys ar ôl y dyddiad y daw'r Bwrdd Gweithredol Dros Dro i rym.

### **A all Bwrdd Gweithredol Dros Dro Argymell Cau Ysgol?**

39. Gall Bwrdd Gweithredol Dros Dro argymell i ALI a Gweinidogion Cymru y dylid cau ysgol, ond ni all y Bwrdd Gweithredol Dros Dro ei hun gyhoeddi cynigion i'w chau.

40. Pan wneir argymhelliad o'r fath ac, yn dilyn yr ymgynghoriad statudol a'r gweithdrefnau eraill y mae'n rhaid eu dilyn, y cytunir y dylid cau'r ysgol, dylai'r Bwrdd Gweithredol Dros Dro barhau i weithredu tan ddyddiad gweithredu'r cynnig (h.y. dyddiad cau'r ysgol).

### **Y broses o newid Bwrdd Gweithredol Dros Dro i fod yn Gorff Llywodraethu sydd â Chyfansoddiad Arferol**

41. Rhaid rheoli'n ofalus y broses o newid Bwrdd Gweithredol Dros Dro i gorff llywodraethu sydd â chyfansoddiad arferol. Mae Atodlen 1A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002, yn nodi y gallai Gweinidogion Cymru bennu'r trefniadau ar gyfer hyn mewn rheoliadau. Wrth ysgrifennu'r canllaw hwn, nid oes rheoliadau o'r fath wedi'u llunio hyd yma.

## **Y Gyfraith**

Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998  
Deddf Addysg 2002  
Deddf Addysg 2005

## **Canllawiau**

Llawlyfr Canllawiau ar Arolygiadau Ysgolion

